

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 28AIN O DACHWEDD 2016 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR Y.C. AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Iona Edwards-Jones, Falmai Evans, Iwan Jones, Elfed Williams a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Gwennan Hughes, Stanley Williams, Jill Evans, Hywel Davies a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 31ain o Hydref 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Ysgol Pant Pastynog, Prion nad oedd y safle ar agor i'r cyfarfod blaenorol y Cyngor.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mi fydd gost o gael trwydded i unrhyw sgip cymunedol mae'r Cyngor yn llogi yn cael trwy'r cwmni sgipiadau mae'r Cyngor Cymuned yn apwyntio. Penderfynwyd trafod dyddiadau ar gyfer y sgipiadau cymunedol yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

2. Mi fydd posibil gyrru cylchlythyr y Cyngor Cymuned gyda'r Trethi'r Cyngor Sir (460 o gyfeiriad post) trwy ffeil PDF i fod yn ddwylo'r Cyngor Sir erbyn diwedd mis Chwefror. Penderfynwyd trafod y cylchlythyr yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

C. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb ymhellach gan Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r estyniad i'r seddi plant yn yr Ysgolion Cynradd y Gymuned yn dilyn y ceisiadau ychwanegol am dai yn y gymuned.

D. Derbyniwyd cadarnhad ar ôl cyfarfod safle oddi wrth Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth Cyngor Sir Ddinbych, fod yna fwy o garafanau ar safle Cae'r Mynydd, Saron na mae'r ceisiadau cynllunio yn caniatáu ac mae'r Adran Cynllunio am gymered camau ymhellach yn erbyn y perchennog.

E. Derbyniwyd adroddiad gan y Cyngorydd Elfed Williams fydd yna bwyllgor yn y flwyddyn newydd gyda'r mudiadau sydd â diddordeb i gyfrannu at gost y "Diffibriliwr" i drafod y gost a'r hyfforddiant ac yn y blaen.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,263.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2016 - £396.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2016 - £99.00.

3. Cyngorydd Philip Williams am gostau teithio i Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar 1af o Hydref 2016 - £97.00.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn Fferm y Foel, Peniel.

B. Derbyniwyd ymateb “Scottish Power” ynglyn ar sylwadau'r Cyngor Cymuned i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych i'r cais cynllunio am is-orsaf trydan i'r Ffermydd Wynt yng Nghoedwigaeth Clocaenog. Penderfynwyd gadael y llythyr ar y bwrdd gan fod Cyngor Sir Ddinbych sydd yn penderfynu'r cais cynllunio.

C. Ceisiadau cynllunio:-

1. Codi estyniad ochr unllaw'r yn Pen-y-Waen, Llanrhaeadr (derbyniwyd datgan diddordeb gan y Cynghorydd Philip Williams ac nid chymerodd rhan yn y drafodaeth ar benderfyniad) - dim gwrthwynebiad.

2. Codi garej driphlyg gyda lle storio i'r llawr cyntaf (manylion diwygiedig i'r rhai a gymeradwywyd eisoes) (derbyniwyd datgan diddordeb gan y Cynghorydd Bari Evans ac nid chymerodd rhan yn y drafodaeth ar benderfyniad) - dim gwrthwynebiad.

6. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Falmai Evans fod Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio rhai o'r tyllau ar ffordd Drws-y-Buddel yn Saron.

B. Penderfynwyd y Clerc hysbysu'r Cyngor Sir Ddinbych yn adroddi fod yna teiars eisiau eu symud o'r ochr y ffordd yn Carreg-y-Pennill a Llwyn Rhos yn Llanrhaeadr.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Bari Evans ei fod wedi mynychu'r cyfarfod rhwng Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ar Gymunedau Lleol yn Sir Ddinbych ar 16eg o Dachwedd 2016 ac mi fydd yn orfodol i'r Cymunedau Lleol cael gofrestr manylion y Cyngor gan y Clerc yn y dyfodol.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 30ain o Ionawr 2017 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.